Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Cynghori Cenedlaethol – 4 Mehefin 2025

## Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol 4 Mehefin 2025

**Cyhoeddwyd:** 5 Ionawr 2026 **Diweddarwyd ddiwethaf:** 2 Ionawr 2026

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofnodion-cyfarfod-bwrdd-cynghori-cenedlaethol-4-mehefin-2025** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.

Cynnwys


- Croeso, presennoldeb ac ymddiheuriadau
- Cymeradwyo'r cofnodion blaenorol
- Crynodeb AGC
- Graddau RISCA – diweddariad ers rhoi'r broses ar waith
- Lleisiau'r aelodau
- Golwg cynnar ar batrymau a thueddiadau ar gyfer 2024-25
- Cynllun Strategol – 2025 – 2030 – y camau nesaf
- Camau gweithredu a cyfarfod nesaf

# Croeso, presennoldeb ac ymddiheuriadau

## Yn bresennol

- Valerie Billingham (Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn)
- Orlaith Brennan (Darparwr Gwasanaeth Cymorth Cartref)
- Natalie Fletcher (Darparwr)
- Rachel Harris (Darparwr Gofal Dydd Llawn)
- Ruth Hussey (Cadeirydd)
- Peter Max (Darparwr Gofal Preswyl)
- Melanie Minty (Fforwm Gofal Cymru)
- Claire Protheroe (PACEY)
- Alyson Thomas (Llais)
- Jenny Williams (ADSS Cymru)
- Gillian Baranski (Prif Arolygydd)
- Julie Heal (AGC)
- Annette Hennessey (AGC)
- Richard Payne (AGC)
- Laura Pritchard (AGC)
- Margaret Rooney (AGC)
- Nev Thomas (AGC)
- Elizabeth Wallwork (AGC)
- Meg Williams (AGC)

## Ymddiheuriadau

- Kate Cubbage (Ymddiriedolaeth Gofalwyr)
- Stuart Davies (Darparwr Gwasanaeth Cymorth Cartref)

# Cymeradwyo'r cofnodion blaenorol

Penderfyniad: Cymeradwyodd aelodau'r Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2025.

## Camau gweithredu o'r cofnodion blaenorol

Adolygodd yr aelodau y cofnod camau gweithredu:

**Gwaith dilynol ar y broses bryderon:** Adolygu ac ystyried y broses gyfathrebu â darparwyr ar ddiwedd y broses bryderon er mwyn sicrhau eglurder a chyflawnrwydd.

- Diweddariad: Byddwn yn bwrw ati gyda darn penodol o waith ar bryderon yn yr ail

chwarter gan gynnwys adolygu ein hymateb i bryderon, sut y caiff hyn ei gofnodi, a'n gohebiaeth ddilynol â'r rhai sy'n codi pryderon.

**Penaethiaid Tîm newydd AGC – cyflwyniad:** Llunio a dosbarthu dogfen sy'n cynnwys lluniau a hanes byr am aelodau newydd o'r tîm i'r rhanddeiliaid.

- Diweddariad: Rydym wedi diweddaru ein holl bortreadau a byddwn yn rhannu'r rhain cyn y cyfarfod nesaf.

**Adborth ar y cynllun strategol:** Ymgorffori adborth ar y cynllun strategol, gan sicrhau'n benodol bod diogelu yn llinyn allweddol drwy'r ddogfen. Ehangu'r disgrifiad o ddigideiddio yn y cynllun strategol i gynnwys y broses o archwilio a defnyddio deallusrwydd artiffisial.

- Diweddariad: Aethpwyd ar drywydd holl argymhellion y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a chawsant eu hychwanegu at y cynllun strategol.

**Cais mewn perthynas â chyhoeddi graddau:** Anfon copi o'r llythyr i Lywodraeth Cymru yn gofyn i'r cynllun ar gyfer cyhoeddi graddau gael ei ohirio am 12 mis arall – Mel Minty

- Diweddariad: Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau – byddwn yn rhoi diweddariad ar raddau hyd yma yn y cyfarfod hwn lle y bydd cyfle i ofyn cwestiynau a rhannu meddyliau.

**Adolygiad blynyddol o achosion o wrthdaro buddiannau:** Rhoi proses adolygu flynyddol ar waith ar gyfer pob aelod o ran achosion o wrthdaro buddiannau.

- Diweddariad: Rydym wrthi'n datblygu'r ffurflenni a byddwn yn eu rhannu pan fyddant wedi'u cwblhau.

**Rhannu canlyniadau arolygon:** Rhannu canlyniadau'r arolwg i Aelodau o safbwynt Cymru ag AGC.

- Diweddariad: Mae'r rhain wedi'u rhannu a byddant yn cael eu hatodi i agenda'r cyfarfod *nesaf.*

# 1. Crynodeb AGC

Rhoddodd Gillian Baranski y diweddariadau canlynol gan AGC:

### 1.1 Ymgyrch recriwtio arolygwyr

Cynhaliodd AGC ymgyrch recriwtio arolygwyr lwyddiannus, gan ddenu 292 o geisiadau ar gyfer swyddi hanfodol a dymunol yng Nghymru. Disgwylir i'r arolygwyr newydd fod yn weithredol erbyn yr hydref, pan fydd yr holl wiriadau CRB a gwiriadau perthnasol eraill wedi'u cynnal.

### 1.2 Ymarfer gwerth ei rannu

Nododd Gillian fenter 'Ymarfer Gwerth ei Rannu', sy'n casglu enghreifftiau o ymarfer o ansawdd uchel a welwyd yn ystod arolygiadau o wasanaethau gofal plant a chware. Y bwriad yw ehangu hyn i wasanaethau oedolion a phlant. Anogwyd y bwrdd i adolygu'r astudiaethau achos hyn ar **wefan AGC (https://www.careinspectorate.wales/practice-worth-sharing)**.

### 1.3 Diweddariadau ar berfformiad

Gofynnodd Gillian i'r bwrdd a ddylid rhoi diweddariadau ar berfformiad AGC ym mhob cyfarfod, dwywaith y flwyddyn, neu'n flynyddol. Cytunodd aelodau'r bwrdd y byddai'n ddefnyddiol cael diweddariadau ar berfformiad ddwywaith y flwyddyn, gyda'r opsiwn i gynnwys eithriadau pan fo angen.

## 2. Graddau RISCA – diweddariad ers rhoi'r broses ar waith

Rhoddodd Nev Thomas (rheolwr tîm – tîm arolygu gwasanaethau oedolion a phlant AGC) ac Annette Hennessey (rheolwr tîm cyfathrebu AGC) ddiweddariad ar y broses o roi graddau ar waith ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant.

**Dyma ddolen i'w cyflwyniad (https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2026-01/260109-Ratings-update.pptx)**.

### 2.1 Y canllawiau sydd ar gael ar ein gwefan

Cyfeiriodd Annette yr aelodau ar yr amrywiaeth o ganllawiau ar raddau sydd ar gael ar **wefan AGC (https://www.careinspectorate.wales/ratings-care-home-and-domiciliary-support-services)**.

### 2.2 Graddau hyd yma

Rhwng 1 Ebrill a 19 Mai 2025, arolygodd AGC 139 o wasanaethau gan ddefnyddio'r fframwaith newydd, a chyhoeddwyd 35 o adroddiadau. Dangosodd y canlyniadau cychwynnol ddeilliannau cryf: Rhoddwyd graddau 'Rhagorol' i 19 o wasanaethau am lesiant a 18 o wasanaethau am arweinyddiaeth a rheolaeth. Dim ond yn achos un gwasanaeth y nodwyd bod angen gwelliant sylweddol.

### 2.3. Adborth cadarnhaol

Rhoddwyd y gorau i arolygiadau nad ydynt yn rhai brys ym mis Mawrth 2025 er mwyn i arolygwyr gwblhau eu hyfforddiant. Bu hyn yn llwyddiannus iawn.

- Dywedodd 87% o'r arolygwyr fod yr hyfforddiant yn rhagorol neu'n dda
- Roedd 96% o'r arolygwyr yn teimlo eu bod wedi cael digon o gymorth i roi'r fframwaith ar waith.

Cafodd yr adborth cadarnhaol hwn ei efelychu gan ddarparwyr hefyd:

Cymerodd 784 o ddarparwyr ran yn y sesiynau ar-lein ar raddau, a dywedodd 97% ohonynt fod y sesiynau hyn yn rhagorol neu'n dda.

### 2.4. Sylw yn y cyfryngau

Rhoddwyd cryn sylw i'r lansiad yn y cyfryngau, gan gynnwys y BBC ac ITV News. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad i'r wasg ar y cyd ag AGC, ac ymwelodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol â chartref nyrsio er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r system newydd.

## 3. Lleisiau'r aelodau

### 3.1 Arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd

Cododd Peter Max gwestiwn ynglŷn â chydbwyso arolygiadau dirybudd ac arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd.

Ailbwysleisiodd AGC ei hymrwymiad i gynnal ymweliadau dirybudd fel y ffordd orau o asesu ansawdd gwasanaeth o ddydd i ddydd. Roedd cytundeb cryf fod ymweliadau dirybudd yn rhoi ciplun mwy cywir.

Roedd yr aelodau o blaid archwilio ffyrdd gwell o gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau cyn ac yn ystod arolygiadau.

### 3.2. Ymarfer gwerth ei rannu

Trafododd y bwrdd astudiaethau achos 'Ymarfer Gwerth ei Rannu' sydd bellach yn cael eu cyhoeddi ar wefan AGC ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae. Mynegodd yr aelodau awydd i ehangu hyn i wasanaethau oedolion a phlant.

### 3.3. Datganiadau blynyddol

Trafodwyd hefyd ddatganiadau blynyddol. Roedd sawl darparwr yn teimlo'n rhwystredig am gymhlethdod y system. Cadarnhaodd Margaret Rooney fod AGC yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i symleiddio'r broses a chyfuno dulliau casglu data o 2026.

### 3.4. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Rhannodd Valerie Billingham strategaeth a chynllun gwaith newydd y Comisiynydd. Mae ffocws ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ymchwil i brofiadau bywyd pobl hŷn o ofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Strategaeth y Comisiynydd 2025-28 – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (https://olderpeople.wales/commissioners-strategy-2025-28/)**

## 4. Golwg cynnar ar batrymau a thueddiadau ar gyfer 2024-25

Rhoddodd Margaret Rooney drosolwg o'r patrymau a'r tueddiadau yn y sector yn 2024-2025.

### 4.1 Pedwar ffactor allweddol sy'n rhoi pwysau ar y sector:

- recriwtio a chadw
- cynaliadwyedd ariannol
- galw cynyddol ar draws gwasanaethau
- cynnal arweinyddiaeth a rheolaeth dda

### 4.2. Tueddiadau a phryderon:

- Mae gweithwyr o dramor yn gynyddol bwysig i wasanaethau gofal yn enwedig mewn ardaloedd trefol, er bod pryderon am gamfanteisio a pholisi mewnfudo yn bodoli o hyd.
- Mae'r sector gofal plant yn symud tuag at ofal dydd llawn, gyda llai o warchodwyr plant.
- Mae gorgyflenwad o wasanaethau cymorth cartref mewn ardaloedd trefol a bylchau mewn ardaloedd gwledig, sy'n codi cwestiynau am y farchnad a chomisiynu. Mae

ceisiadau cofrestru o ansawdd gwael yn gyffredin.
- O fis Ebrill 2026, ni ellir cofrestru darparwyr er-elw newydd ar gyfer cartrefi gofal i blant.

### 4.3. Nodweddion cadarnhaol:

- Mae'r rhan fwyaf o ofal yn dda neu'n rhagorol
- Cymorth gan y llywodraeth ar gyfer y gweithlu a sefydlogrwydd
- Twf mewn gwasanaethau a arweinir gan yr awdurdod lleol
- Arweinyddiaeth gref yn ysgogi effaith
- Fframwaith newydd i gefnogi diwylliannau cadarnhaol

## 5. Cynllun Strategol – 2025 – 2030 – y camau nesaf

Rhoddodd Annette Hennessey gyflwyniad ar elfen 'dylanwadu' y Cynllun Strategol. **Gallwch weld y sleidiau yma (https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2026-01/260109-Influence-slides_0.pptx)**.

### 5.1 Cyfathrebu ac ymgysylltu

Un o dair thema **cynllun strategol AGC (https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2025-05/250530-Strategic-Plan-2025-2030-en.pdf)** ar gyfer 2025 i 2030 yw:

Dylanwad: Bod yn adnabyddus a dibynadwy, gan rannu ein dealltwriaeth a'n harbenigedd unigryw er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Er mwyn ymateb i hyn, mae AGC wrthi'n datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu newydd.

Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol am eu hadborth ynglŷn â sut y dylid mynd ar drywydd y gwaith hwn a beth y dylai ein blaenoriaethau fod.

Arweiniodd Annette Hennessey sesiwn ar sut y gallai AGC wella ei phroffil cyhoeddus a'i gweithgarwch ymgysylltu. Ymhlith yr awgrymiadau roedd targedu cynulleidfaoedd iau drwy'r cyfryngau cymdeithasol (TikTok ac Instagram), gwella hygyrchedd, a defnyddio technegau adrodd straeon i ddathlu arferion da. Roedd yr aelodau o blaid datblygu strategaeth gyfathrebu a gwnaethant gynnig helpu i hyrwyddo gwaith AGC.

### 5.2. Polau

Hwyluswyd polau rhyngweithiol ar gyfathrebu ac ymgysylltu yn ystod y cyfarfod ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

**Pa air sy'n dod i'r meddwl wrth ystyried proffil cyhoeddus presennol AGC?**

- Cymysg, corfforaethol, gwan, ffurfiol, cyfyngedig, isel (x3), gofalgar, proffil isel

**A ydych yn dilyn AGC ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol?**

- Na: 2
- Ydw: 10

**Pan un o'n sianeli cyfryngau cymdeithasol rydych yn ei dilyn?**

- LinkedIn: 2
- Facebook: 1
- Facebook a LinkedIn: 5
- Facebook, LinkedIn a X: 1

**A ydych wedi tanysgrifio i fwletin AGC?**

- Ydw: 7

## Camau gweithredu a cyfarfod nesaf

### Camau gweithredu

- Rhannu sleidiau a dolenni gwe a rannwyd yn ystod y cyfarfod. Parhau i rannu astudiaethau achos ar ymarfer cadarnhaol.
- Ystyried sut i wella adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid yn ystod arolygiadau.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid i symleiddio'r broses ar gyfer datganiadau blynyddol.
- Olrhain goblygiadau gofynion cyhoeddi ar wefan i ddarparwyr bach.

### Cyfarfod nesaf

Dydd Mawrth 23 Medi 2025, 9.30am - 12.30pm

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofnodion-cyfarfod-bwrdd-cynghori-cenedlaethol-4-mehefin-2025** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.